# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

**RHAN 6**

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

*Gadael gofal, llety a maethu*

**103 Ymgyfeillio â phlant sy'n derbyn gofal, eu cynghori a'u cynorthwyo**

Rhaid i awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn ei gynghori a'i gynorthwyo ac ymgyfeillio ag ef gyda golwg ar hyrwyddo llesiant y plentyn pan fydd wedi peidio â gofalu amdano.